# Taflen Wybodaeth Gwirfoddoli Grŵp

## Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru



Ers 1907 rydyn ni wedi bod yn geidwaid treftadaeth a chasgliadau celf a hanes natur Cymru, ac rydyn ni'n credu y gall amgueddfeydd newid bywydau. Drwy wirfoddoli gyda ni, gall eich grŵp helpu i sicrhau bod y straeon a'r casgliadau amhrisiadwy hyn yn parhau i ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol.

Yma cewch yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi a'ch grŵp.

### Gweithgareddau Gwirfoddoli

Yn y gorffennol, mae grwpiau wedi ein helpu gyda gwyngalchu adeiladau hanesyddol, paentio ffensys, gwaith fferm, garddio, a helpu i drefnu deunyddiau archifol hyd yn oed.

Os hoffech fath arbennig o weithgaredd, rhowch wybod i ni. Byddwn yn gwneud ein gorau i ddarparu ar eich cyfer, ond ni allwn warantu y bydd gweithgaredd yn bosibl.

### Hyfforddiant a Goruchwyliaeth

Bydd eich grŵp yn cael cyflwyniad defnyddiol a phriodol, hyfforddiant, cefnogaeth a goruchwyliaeth gan staff Amgueddfa Cymru. Byddwn hefyd yn darparu'r holl gyfarpar diogelu personol sydd ei angen yn rhad ac am ddim.

Bydd angen i'ch grŵp enwebu Arweinydd Tîm a fydd yn cynnig cymorth a lefel o oruchwyliaeth i'ch grŵp.

Bydd angen i grwpiau ddod â'r nifer priodol o oruchwylwyr a/neu ofalwyr i oruchwylio grwpiau ag anghenion ychwanegol.

### Maint grŵp lleiaf

Er mwyn sicrhau bod digon o help llaw i gwblhau'r gweithgareddau mae angen lleiafswm o 8 o bobl fesul grŵp.

## Grŵp Oedran y Cyfranogwyr

Rhaid bod dros 16 oed i gymryd rhan. Byddwn yn cynnal asesiadau risg ychwanegol ar gyfer unrhyw weithgaredd ar gyfer pobl ifanc 16–18 oed.

## Amserlen y Diwrnod

Amserlen arferol:

| | |
|---|---|
| 10.00am | Cyrraedd y Tŷ Gwyrdd. |
| 10.30am | Croeso a sesiwn wybodaeth.<br>Rhannu yn grwpiau (os oes angen)<br>Gwirfoddoli. |
| 1.30pm | Cinio |
| 2.30pm | Gweithgareddau opsiynol neu amser hamdden. |
| 3.30pm | Diwedd |

## Lluniaeth a Chinio

Mae croeso i chi ddefnyddio caffis yr Amgueddfa trwy gydol y diwrnod. Mae grwpiau'n derbyn gostyngiad o 20% yn ein caffis.

Neu gallwch archebu lluniaeth, brecwast, a/neu ginio, ynghyd â llogi ystafell (mwy o wybodaeth isod).

Mae croeso i'ch grŵp hefyd ddod â phecyn bwyd, a gallwch ei fwyta yn yr awyr agored ar draws yr Amgueddfa. Hefyd, gallwn gynnig Tŷ Gwyrdd i chi fel canolfan, ac mae croeso i bobl fwyta eu cinio yno hefyd. Mae'r gofod hwn yn agored i'r holl staff a gwirfoddolwyr felly bydd pobl yn mynd a dod.

# Opsiynau Ychwanegol

## Llogi Ystafelloedd ac Arlwyo

Os hoffech drefnu cyfarfod tîm neu weithdy fel rhan o'ch diwrnod, gallwn gynnig llogi ystafell yn ogystal â gwahanol becynnau arlwyo/lluniaeth.

Am fwy o wybodaeth ewch i'n gwefan https://amgueddfa.cymru/sainffagan/llogi/

Neu e-bostiwch llogi@amgueddfacymru.ac.uk.

Rhowch wybod iddynt eich bod wedi archebu diwrnod gwirfoddoli grŵp gyda ni.

## CoedLan

Dringwch, neidiwch, camwch a siglwch eich ffordd drwy'r coed fry uwchben adeiladau Sain Ffagan, cyn cymryd y wifren wib yn ôl i dir cadarn. Taclwch 18 rhwystr CoedLan, gan gynnwys y boncyff balans, y bont gam, y rhwydi cargo a'r wifren wib.

Am fwy o wybodaeth ewch i'n gwefan
https://amgueddfa.cymru/sainffagan/cwrs-rhaffau/

Am fwy o wybodaeth e-bostiwch llogi@amgueddfacymru.ac.uk.

Rhowch wybod iddynt eich bod wedi archebu diwrnod gwirfoddoli grŵp gyda ni.

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwirfoddoli grŵp, llenwch y Ffurflen Ymholiad a'i hanfon at Sion: gwirfoddoli@amgueddfacymru.ac.uk neu ffonio (029) 2057 3002.